



**ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES**
cenhadaeth ein cenedl | our national mission



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Technoleg Fiometrig mewn Ysgolion a Cholegau

Cyngor i blant a phobl ifanc

Mae technoleg yn gallu bod yn wych i bawb ac yn aml yn gallu helpu i wneud pethau'n gyflymach ac yn haws. Gall helpu i gael gafael ar wybodaeth a'i storio.



Gall ysgolion a cholegau ddefnyddio technoleg i gasglu a storio gwybodaeth am ddysgwyr. Gwybodaeth fiometrïg yw'r enw ar rai mathau o wybodaeth, ac mae'n cael ei chasglu drwy ddefnyddio technoleg fiometrïg. Mae ysgolion yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig wedi defnyddio technoleg fiometrïg ers llawer o flynyddoedd.

Beth yw gwybodaeth fiometrig?

Mae gwybodaeth fiometrig yn gallu cynnwys:

- olion bysedd
- siâp yr wyneb
- retina neu iris yn y llygad
- mesuriadau'r llaw.



Mae technoleg fiometrig yn defnyddio eich gwybodaeth fiometrig i adnabod pwy ydych chi.
Mae gwahanol fathau o dechnoleg fiometrig:



Sganwyr olion bysedd



Technoleg adnabod wyneb




Technoleg Adnabod Wyneb
Byw sy'n defnyddio camerâu wedi'u hanelu at fan benodol a all eich adnabod, yn debyg i deledu cylch cyfyng

Pam a sut mae gwybodaeth fiometrig yn cael ei defnyddio?

Efallai y bydd rhai ysgolion neu golegau am ddefnyddio system fiometrig, er enghraifft system olion bysedd, i gofrestru dysgwyr, benthycu llyfrau o'r llyfrgell neu fel ffordd o dalu am ginio.

Mae gwybodaeth fiometrig yn bwysig iawn, ac mae yna ddeddfau sy'n golygu bod yn rhaid i ysgolion a cholegau ei chadw'n ddiogel.



Beth mae'n rhaid i ysgolion a cholegau wneud:



- ✓ Rhaid meddwl am bob opsiwn arall cyn defnyddio technoleg fiometrig.
- ✓ Casglu eich gwybodaeth fiometrig dim ond os ydych chi'n dweud ei fod yn iawn i wneud.
- ✓ Os na rowch chi eich caniatâd, bydd rhaid i'ch ysgol/coleg gynnig ffordd hwylus arall i chi gael defnyddio gwasanaethau fel prydau ysgol.
- ✓ Rhoi gwybod i chi os oes rheswm newydd dros gasglu neu ddefnyddio eich gwybodaeth fiometrig a gofyn am eich caniatâd eto.
- ✓ Rhoi gwybod i'ch rhiant/gofalwr pa wybodaeth fiometrig maen nhw eisiau ei chymryd, a dweud sut byddan nhw'n ei defnyddio.
- ✓ Dweud wrthoch chi ac wrth eich rhiant/gofalwr bod gyda chi hawl i ddweud 'Na'.
- ✓ Peidio â chymryd eich gwybodaeth fiometrig heb lythyr neu e-bost gan eich rhiant/gofalwr yn dweud ei fod yn iawn.

I roi gwybod i'ch ysgol/coleg bod eich rhiant/gofalwr wedi newid eu meddwl ac nad ydyn nhw am roi eu caniatâd ddim mwy, y cyfan sydd angen iddyn nhw ei ysgrifennu yw:

'Nid wyf i [enw'r rhiant/gofalwr] yn rhoi fy nghaniatâd, bellach, i [enw'r ysgol/coleg] gasglu gwybodaeth fiometrig fy mhlentyn, [enw'r person ifanc], drwy ddefnyddio [nodwch beth, e.e. olion bysedd, technoleg adnabod wynebau ac ati].

Sut bydd ysgolion yn cadw fy ngwybodaeth yn ddiogel?

Mae'n rhaid i ysgolion a cholegau gadw'r holl wybodaeth yn ddiogel, fel mai dim ond nhw sy'n gallu ei defnyddio. Rhaid iddynt sicrhau na fydd yn cael ei rhoi i unrhyw un arall, oni bai bod y gyfraith yn dweud y cân nhw wneud hynny.

Mae'n rhaid i ysgolion a cholegau ddinistrio'ch gwybodaeth fiometrig:

- pan fyddwch chi'n gadael yr ysgol neu'r coleg
- os ydych chi neu riant/gofalwr yn newid eich meddwl am roi'r wybodaeth i'r ysgol neu'r coleg.



Hawliau Dysgwyr

Mae gan bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru hawliau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae Erthygl 12 yn rhoi'r hawl i chi fynegi eich safbwyntiau, teimladau a dymuniadau ynghylch pob mater sy'n eich effeithio a mae Erthygl 16 yn rhoi'r hawl i breifatrwydd ichi. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: Hawliau Plant – Comisiynydd Plant Cymru (complantcymru.org.uk)

Gallwch chi ddweud 'Na'!


Os nad ydych chi eisiau i'r ysgol neu'r coleg gymryd eich gwybodaeth fiometrig, yna chân nhw ddim ei chymryd, hyd yn oed os yw'ch rhieni neu'r person sy'n gofalu amdano chi wedi rhoi caniatâd.

Codi eich llais

Dylai ysgolion a cholegau roi gwybod ichi bod gyda chi'r hawl i ddweud 'Na'! Os ydych chi eisiau i rywun eich helpu, gallwch chi ofyn i'ch rhieni, eich gofalwr, ffrindiau neu rywun rydych chi'n ymddiried ynddo fe neu hi, fel athro neu weithiwr ieuenctid i siarad drostoch chi.

Beth yw Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data?

Mae'r gyfraith yn dweud bod yn rhaid i ysgolion a cholegau wneud asesiad effaith i sicrhau eu bod yn diogelu unrhyw wybodaeth fiometrig y gallant ei chasglu gennych.



Beth yw Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant?

Mae hawl gan blant a phobl ifanc i fod yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. Rhaid i unrhyw ysgol neu goleg sy'n ystyried casglu eich gwybodaeth bersonol neu fiometrig gwblhau Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant.

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yno i'ch helpu chi. Gallwch chi fynd atynt am gymorth, neu i sôn am unrhyw beth nad yw'n teimlo'n iawn am y ffordd y mae eich gwybodaeth fiometrig yn cael ei chasglu.

Rydyn ni hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ar systemau biometrig i ysgolion a cholegau y gallwch chi eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru: Diogelu gwybodaeth fiometrig: canllawiau i ysgolion a cholegau.



**ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES**
cenhadaeth ein cenedl | our national mission